

Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Pont Steffan

Dyddiad yr arolygiad: 1 Mai 2018

Dyddiad cyhoeddi: 2 Awst 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
	Yr hyn a ganfuom	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	18
3.	Beth nesaf?	20
4.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	21
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	22
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	23
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	24

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chymesur

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Pont Steffan yn Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7HZ ar 1 Mai 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y practis yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o wybodaeth am sut rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod Practis Deintyddol Pont Steffan yn gweithio'n galed i ddarparu profiad o ansawdd uchel ar gyfer ei gleifion.

Gwelsom dystiolaeth fod contractau amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau yn ddiogel ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda. Roedd yr amgylchedd wedi cael ei adnewyddu ac roedd yn darparu cyfleusterau o ansawdd da i'r staff a'r cleifion.

Roedd y cofnodion a adolygwyd gennym yn gynhwysfawr a chyfredol. Roedd gweithdrefnau rheoli heintiau wedi'u halinio i'r canllawiau angenrheidiol a'r dulliau archwilio. Gwelsom dystiolaeth fod yr offer yn cael eu gwirio a'r prosesau dadheintio yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Roedd ffeiliau'r polisïau a'r gweithdrefnau yn daclus ac yn hawdd eu defnyddio, ac roedd hyn yn galluogi staff i gael gwybodaeth i'w helpu gyda'u gwaith bob dydd.

Roedd y staff yn gyfredol o ran eu hyfforddiant ac roedd systemau ar waith i sicrhau bod y staff yn cael cefnogaeth yn eu rôl.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd systemau ar waith i gasglu adborth, sylwadau a chwynion gan gleifion.
- Roedd cleifion yn unfrydol fod y gwasanaeth a ddarperir yn y practis yn rhagorol
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu rolau ac yn deall eu cyfrifoldebau.

- Roedd archwiliadau perthnasol a chynhwysfawr yn cael eu cynnal a oedd yn rhoi tystiolaeth fod y practis yn ymdrechu i wella ei wasanaethau yn barhaus.
- Roedd systemau ar waith i sicrhau bod staff yn derbyn cefnogaeth a'u bod yn meddu ar yr hyfforddiant angenrheidiol i allu cyflawni eu swyddi'n effeithiol.
- Roedd yr amgylchedd yn cynnig cyfleusterau clinigol a oedd wedi'u cyfarparu a'u cynnal a'u cadw'n dda, ac i'w gweld yn lân ac yn dachus.
- Roedd gan y practis deintyddol gyfleusterau ar y llawr daear a oedd yn ei gwneud yn addas i drin pobl a chanddynt broblemau symudedd.

Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.

Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Practis deintyddol preifat yn unig yw Deintyddfa Pont Steffan.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys pedwar deintydd, pedair nyrs ddeintyddol, tri derbynnydd, un cydlynnydd marchnata ac un rheolwr practis.

Darperir amrediad o wasanaethau deintyddol preifat.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, canfuom fod y practis hwn yn gweithio'n galed i ddarparu profiad o ansawdd uchel ar gyfer ei gleifion. Gwelsom fod gwybodaeth berthnasol yn cael ei harddangos yn y dderbynfa a'r ardaloedd aros, yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cadarnhaodd yr adborth a gawsom o holiaduron AGIC fod cleifion o'r farn fod eu profiad yn y practis hwn yn rhagorol.

Roedd y practis yn cael ei ategu gan systemau a oedd yn sicrhau bod unrhyw gŵynion a sylwadau yn cael eu casglu'n gyson. Roedd yr wybodaeth hon yn cael ei hadolygu'n rheolaidd a, lle bo hynny'n berthnasol, roedd newidiadau wedi cael eu gwneud i wella profiad y claf yn y practis.

Cyn yr arolygiad, estynnwyd gwahoddiad i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a oedd yn cael eu darparu. Cwblhawyd cyfanswm o 24 holiadur. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Rwyf wastad wedi bod yn glaf nerfus yn y gorffennol, a methu cael archwiliadau rheolaidd o ganlyniad. Mae'r holl staff fan hyn yn gyfeillgar ac yn gwneud i chi ymlacio. O ganlyniad, rydw i bob amser yn hyderus wrth fynychu archwiliadau rheolaidd ac o ganlyniad mae cyflwr fy nannedd a'm deintgig wedi gwella cryn dipyn".

"Ers mynychu Pont Steffan mae fy 'ffobia' o ddeintyddion wedi diflannu. Mae'r staff bob amser yn ddigynnwrf, yn ofalgar ac yn gwneud i chi deimlo'n ymlaciedig. Nid rhif yn unig mohonoch chi".

"Y gofal a'r gwasanaeth hwn yw'r gorau rydw i wedi'u profi erioed o gymharu â phractisau rydw i wedi'u defnyddio yn y gorffennol".

"Yn gymwynasgar ac yn broffesiynol. Mae'r gwasanaeth y tu allan i oriau yn grêt".

Cadw'n iach

Roedd gwybodaeth hybu iechyd ar gael yn y dderbynfa/ardaloedd aros, gan gynnwys taflenni gwybodaeth a phosteri a theledu yn esbonio gwahanol fathau o driniaethau a gwybodaeth ataliol. Gwnaethom hefyd nodi bod yr wybodaeth ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg.

Roedd rhestr prisiau yn cael ei harddangos yn y dderbynfa/ardal aros ar gyfer costau am driniaethau preifat.

Roedd arwydd 'dim ysmegu' wedi'i arddangos ar y drws a oedd yn arwain at y dderbynfa ac a oedd yn cadarnhau bod pwyslais yn cael ei roi ar gydymffurfio â deddfwriaeth mangreoedd di-fwg.¹

Gofal ag urddas

Gwelsom dystiolaeth fod cleifion yn derbyn gofal gydag urddas a pharch. Roedd gan y practis ystafell benodol er mwyn cynnal sgysrsiau gyda chleifion yn gyfrinachol, ac roeddent hefyd yn gallu defnyddio'r ystafelloedd triniaeth at y diben hwnnw yn ôl yr angen. Clywsom staff yn siarad â chleifion mewn modd cyfeillgar a phroffesiynol. Roedd adborth o'r cleifion a gwblhaodd ein holiaduron hefyd yn gadarnhaol iawn. Dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod yn cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Gwybodaeth i gleifion

¹Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 – Cyflwynwyd deddfwriaeth i wahardd ysmegu mewn mannau cyhoeddus caeedig yn 2007 er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag mwg ail-law.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei gynnwys yn y penderfyniadau a wneid ynghylch ei driniaeth i'r graddau roedd yn dymuno, a'i fod wedi derbyn gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael. Yn ogystal â hyn, dywedodd yr holl gleifion fod cost unrhyw driniaeth yn cael ei hesbonio iddynt bob amser cyn iddynt dderbyn unrhyw driniaeth.

Canfuom hefyd dystiolaeth o gynllunio triniaethau o fewn sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom edrych arnynt. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth.

Roedd gan y practis ei becyn gwybodaeth ei hun i gleifion fynd ag ef adref gyda nhw. Roedd y pecyn yn cynnwys ffurflen iechyd deintyddol, gwybodaeth ynghylch cynllun talu a thaflen wybodaeth y practis, gyda gwybodaeth ynghylch argyfyngau deintyddol, yr weithdrefn gwyno a manylion cyswllt.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC wrthym eu bod yn gallu siarad â staff yn eu hiaith ddewisol bob amser. Dywedodd chwech o gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg, a gwnaethant ddweud wrthym eu bod bob amser yn gallu siarad â staff yn Gymraeg. Roedd staff yn gweithio yn y practis a oedd yn gallu siarad â chleifion yn Saesneg neu yn Gymraeg a gwelsom hyn yn ystod ein hymweliad.

Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu'n brydlon bob amser a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd staff broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC y byddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai problem ddeintyddol frys ganddynt.

Roedd rhif ffôn brys ar gyfer y gwasanaeth y tu allan i oriau ar gael pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys y tu allan i oriau ar gleifion. Roedd y rhif ffôn yn cael ei arddangos y tu allan i'r practis mewn ffenestr. Roedd hyn yn galluogi cleifion i gael mynediad at y neges peiriant ateb sy'n cynnwys y rhif ffôn ar gyfer gwasanaeth y tu allan i oriau.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd adborth oddi wrth gleifion a gwblhaodd holiaduron yn cadarnhau bod y tîm deintyddol wedi trafod â nhw ynghylch sut i gadw eu cegau a'u dannedd yn iach, a'u bod yn cael eu cynnwys mewn unrhyw benderfyniadau a wneid am eu triniaeth i'r graddau roeddent yn dymuno.

Hawliau pobl

Gwnaethom nodi bod polisi cydraddoldeb penodol ar waith yn y practis. Golygai hyn fod y practis wedi ymrwymo i sicrhau bod pawb yn cael mynediad at yr un cyfleoedd ac yn cael eu trin yn yr un ffordd deg

Roedd mynediad i'r adeilad yn addas i unrhyw un ag anawsterau symudedd. Roedd y practis wedi ymgymryd â gwaith adnewyddu cynhwysfawr i wneud y cyfleusterau mor hygyrch â phosibl. Roedd hyn yn cynnwys darparu ystafelloedd triniaeth ddeintyddol ar y llawr daear a thoiled i'r cyhoedd.

Roedd arwyddion i ddangos lleoliad y tŷ bach i'r cyhoedd ac roedd y cyfleusterau yn lân ac yn darparu cyfleusterau golchi a sychu dwylo. Roedd gan y cyfleuster toiled ganllaw hefyd i roi cymorth i unrhyw un ag anawsterau symudedd.

Gwrando a dysgu o adborth

Roedd polisi a gweithdrefn gwyno ar waith yn y practis. Roedd y rhain wedi'u harddangos yn y dderbynfa/man aros yn ogystal ag ar wefan y practis ac yn y daflen wybodaeth i gleifion. Yn ogystal â hyn, roedd gan y practis system ar waith i nodi sylwadau anffurfiol/ sylwadau a wnaed ar lafar.

Roedd systemau wedi eu sefydlu i gofnodi, monitro ac ymateb i unrhyw gŵynion a geid yn y practis. Prin iawn oedd y cwynion a oedd wedi'u derbyn gan y practis, ond gwelsom fod cofnod cwynion yn cael ei ddefnyddio gan y practis. Nid oedd yr holl ohebiaeth ar gyfer pob cwyn yn amlwg yn y ffeil. Dywedodd staff wrthym eu bod hefyd yn aml yn dadansoddi sylwadau a/neu gŵynion i nodi unrhyw themâu neu dueddiadau. Bwriad hyn oedd gwella gwasanaethau i gleifion.

Roedd gan y practis systemau ar gyfer casglu adborth oddi wrth gleifion. Roedd cardiau sylwadau ar gael yn yr ardal aros, a blwch i bostio atebion yn ddienw. Gallai cleifion gyflwyno adborth yn electronig drwy wefan y practis. Roedd arolygon cleifion hefyd yn cael eu cynnal bob yn ail flwyddyn. Roedd canlyniadau arolwg 2016 wedi'u cyhoeddi ac ar gael yn yr ystafell aros ac ar y wefan. Roedd canlyniadau'r arolwg yn dangos y camau gweithredu a gymerwyd gan y practis i wella eu gwasanaeth yn seiliedig ar yr adborth oddi wrth y cleifion.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Canfuom fod y practis yn cael ei redeg gyda'r bwriad o fodloni'r rheoliadau perthnasol a'r safonau sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion.

Roedd y practis wedi cael ei adnewyddu â chyfleusterau a oedd yn darparu amgylchedd o ansawdd da i staff ac ymwelwyr. Gwelsom dystiolaeth fod contractau amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau yn ddiogel ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda.

Roedd gweithdrefnau rheoli heintiau wedi'u halinio i'r canllawiau angenrheidiol a'r dulliau archwilio. Gwelsom hefyd dystiolaeth fod yr offer yn cael eu gwirio a'r prosesau dadheintio yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Roedd y cofnodion a adolygwyd gennym yn gynhwysfawr a chyfredol. Roedd hefyd gwiriadau ar waith ar gyfer tasgau amrywiol a oedd yn darparu sicrwydd bod tasgau yn cael eu cwblhau yn gyson.

Gofal diogel

Ni nodwyd unrhyw faterion o sicrwydd ar unwaith yn ystod yr ymweliad arolygu hwn.

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, canfuom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a llesiant staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u trefnu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis.

Roedd contract ar waith ar gyfer symud a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gynhyrchir gan y practis mewn dull diogel. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n briodol. Roedd casgliadau gan y cyngor lleol ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff nad yw'n beryglus (gwastraff cartref).

Mae'r practis wedi'i leoli ar ddau lawr. Prynwyd y practis gan y deintydd presennol yn 2012 ac roedd yr adeilad wedi cael ei adnewyddu'n sylweddol gan ddarparu amgylchedd da i staff ac ymwelwyr. Roedd yn amlwg fod yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn fewnol ac yn allanol, ac roedd yr holl ardaloedd o fewn y practis yn lân, yn daclus ac yn rhydd rhag unrhyw beth a allai beri risg o faglu.

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol. Hefyd, dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y practis, yn eu barn nhw, yn lân iawn.

Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol leoliadau o amgylch y practis a gwelsom fod yr offer hwn wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf.

Roedd allanfeydd brys yn weladwy ac roedd poster iechyd a diogelwch wedi'i arddangos yn y practis.

Atal a rheoli heintiau

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer glanhau a sterileiddio offer (a adwaenir hefyd fel dadheintio). Dangosodd ein harsylwadau fod y broses hon yn foddhaol. Roedd enghreifftiau yn cynnwys y canlynol:

- Ystafell bwrpasol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol
- Sinc neilltuedig i olchi dwylo
- Roedd yr offer a oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau'n newydd ac mewn cyflwr da
- Roedd offer wedi'u storio'n briodol ac wedi'u dyddio
- Argaeledd cyfarpar diogelu personol ar gael i ddiogelu'r staff rhag anafiadau a/neu heintiau

Gwelsom dystiolaeth fod archwiliadau rheoli heintiau yn cael eu cynnal gan ddefnyddio dulliau archwilio cydnabyddus, gan gynnwys dull archwilio

Deoniaeth Cymru sydd wedi'i alinio i ganllaw Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.² Gwnaethom gydnabod bod hyn yn arfer da oherwydd mai mor gynhwysfawr yw cynnwys yr archwiliad. Roedd archwiliad rheoli heintiau wedi'i gwblhau ac nid oedd yn cynnwys unrhyw gamau gweithredu/argymellion i'w dilyn.

Roedd gan y practis raglen cynnal a chadw dyddiol ar gyfer gwirio'r offer sterileiddio. Roedd llyfr cofnodion ar gael ar gyfer pob awtoclaf³ a gwelsom dystiolaeth i ddangos bod gwiriadau yn cael eu cynnal ar ddechrau ac ar ddiwedd y dydd.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd y practis wedi sefydlu gweithdrefnau priodol i ymdrin ag achosion brys (cleifion); ac roedd cyfarpar dadebru ar gael i'w ddefnyddio. Nid oedd gan y practis gyfarpar sugno cludadwy ar gael ar ddiwrnod ein hymweliad, ond cafodd hwn ei archebu ar unwaith pan soniwyd amdano wrth y staff. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant i ymdrin ag argyfyngau meddygol, a sut i gyflawni dadebru cardio-pwlmonaidd.

Gwelwyd bod y cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu cadw'n briodol er mwyn sicrhau mynediad rhwydd atynt mewn sefyllfa frys. Roedd gan y practis system i ddangos bod gwiriadau'n cael eu cynnal i wirio a newid cyffuriau a chwistrelli yr oedd eu dyddiadau wedi dod i ben, yn unol â'r safonau a amlinellir gan Gyngor Dadebru'r DU.⁴

Roedd gan y practis swyddog cymorth cyntaf penodedig.

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

² Mae dogfen [Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 \(Diwygiad 1\)](#) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

³ Siambr pwysedd yw peiriant awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau trwy ofodi ager dirlawn pwysedd uchel arnynt.

⁴ Mae [Cyngor Dadebru'r DU](#) yn bodoli i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu.

Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Roedd polisïau diogelu ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed ar waith. Roedd y polisïau'n cynnwys manylion y tîm diogelu lleol a siart lif a fyddai'n cynorthwyo staff gyda'r camau gofynnol pe bai mater diogelu yn codi.

Gwelsom fod pob aelod o'rstaff wedi cwblhau hyfforddiant cyfredol mewn amddiffyn oedolion a phlant. Roedd angen i un aelod i staff gwblhau hyfforddiant diweddar mewn hyfforddiant amddiffyn plant. Yn dilyn yr ymweliad, cyflwynwyd tystiolaeth i ddangos bod hyn wedi'i gwblhau.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo y gallent leisio unrhyw bryderon a oedd ganddynt, a'u bod yn hyderus y byddai'r rhain yn derbyn sylw.

Dywedodd staff wrthym am y gwiriadau cyn-gyflogaeth fyddai'n cael eu cwblhau ar gyfer unrhyw aelodau o staff newydd cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd hyn yn cynnwys cynnal gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd⁵ ar gyfer yr holl staff .

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar yr ystafelloedd triniaeth yn y practis, gan nodi eu bod yn lân ac yn dactylus. Roedd y lloriau a'r arwynebau yn yr ystafelloedd triniaeth yn hawdd eu glanhau er mwyn lleihau croes-heintio. Canfuom fod yr offerynnau deintyddol yn yr ystafelloedd triniaeth mewn cyflwr da a bod digon ohonynt.

Daethom i'r casgliad fod gan y practis drefniadau ar waith i ddefnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Mae hyn am fod y dogfennau a'r wybodaeth ofynnol ynglŷn â defnyddio'r offer pelydr-X yn ddiogel ar gael ac yn gyfredol.

Gwelsom dystysgrifau hyfforddi a oedd yn dangos bod y deintyddion wedi derbyn hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio cyfredol, a'u bod yn bodloni'r canllawiau a osodwyd allan gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

⁵ Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. Mae wedi disodli'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

Gwelsom fod archwiliadau o ansawdd delweddau pelydr-X wedi cael eu cwblhau'n rheolaidd fel rhan o'r gwaith monitro ar gyfer sicrhau ansawdd. Mae'r archwiliadau hyn yn nodi problemau posibl wrth gynnal sganiau pelydr-X, ac yn dangos lle y dylid gwneud gwelliannau os oes angen.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yn amlwg fod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Er enghraifft, roeddem yn gallu gweld y rhaglen o archwiliadau a oedd wedi cael ei chwblhau gan y practis, a gwelsom rai archwiliadau a gwblhawyd gan y practis.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

O drafodaethau â staff, fe'n hysbyswyd bod system adolygu gan gymheiriaid anffurfiol ar waith. Mae system adolygu gan gymheiriaid yn werthusiad o waith proffesiynol gan eraill o fewn yr un maes. Mae'r dull hwn yn helpu i gynnal safonau a gwella perfformiad lle bo hynny'n berthnasol. Gwnaethom argymhell y dylid newid y broses anffurfiol i un ffurfiol er mwyn darparu tystiolaeth o'r broses a sut mae'n cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir i gleifion.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd y dull o storio gwybodaeth cleifion yn briodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Er enghraifft, roedd copi wrth gefn o bob ffeil electronig yn cael ei wneud yn rheolaidd ac roedd mynediad at sgriniau cyfrifiadur yn ddiogel ac yn breifat. Roedd cofnodion papur yn cael eu cadw o dan glo mewn cabinetau ffeilio. Roedd polisi diogelu data ar waith er mwyn rhoi canllawiau i staff ynghylch yr hyn a ddisgwyliid ganddynt.

Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o ddeg cofnod cleifion yn y practis a chanfod eu bod yn addas ac yn cynnwys gwybodaeth ddigon manwl am driniaeth pob claf.

Gwelsom hanesion meddygol wedi'u cynnwys ym mhob un o'r cofnodion y gwnaethom eu hadolygu. Roedd gwybodaeth briodol ynghylch hylendid y geg wedi'i rhoi, yn unol â'r canllawiau cenedlaethol.

Ym mhob achos, roedd y cofnodion a welsom yn unigryw ar gyfer y claf dan sylw ac yn cynnwys rhif dynodi claf priodol, hanes deintyddol blaenorol a'r rheswm dros yr apwyntiad.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r gwaith oddarparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat a'r safonau proffesiynol perthnasol.

Gwelsom dystiolaeth fod systemau a phrosesau ar waith a oedd yn sicrhau bod y practis a'r staff yn cael eu cefnogi a'u bod yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel.

Gwelsom fod amrediad o bolisiâu a gweithdrefnau wedi eu sefydlu, a oedd â'r nod o sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Roedd gan y polisiâu a gweithdrefnau ddyddiadau cyhoeddi ac adolygu a thystiolaeth fod staff wedi darllen a deall eu cyfrifoldebau.

Dywedodd staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda a'u bod yn cydweithio'n dda gyda'i gilydd. Gwelsom fod staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn nifer o feysydd ac roedd hyn o gymorth wrth sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth gyfredol i'w helpu gyda'u gwaith.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae perchennog presennol Deintyddfa Pont Steffan wedi bod yn darparu gwasanaethau yn yr adeilad presennol ers 2012.

Canfuom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Dywedodd y staff i gyd wrthym eu bod yn gweithio'n dda gyda'i gilydd a dangoswyd hyn gan eu perthynas a'u rhyngweithio â'r cleifion. Roedd staff yn ymwybodol o'r polisi chwythu'r chwiban a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus wrth godi unrhyw faterion neu bryderon am ddarparu gofal i gleifion gyda'r deintydd yn uniongyrchol neu gyda chorff priodol pe bai angen.

Roedd y staff i gyd wedi ymrwymo i ddarparu gofal o safon uchel ar gyfer eu cleifion ac roedd hyn yn cael ei ategu gan amrediad o bolisiâu a gweithdrefnau.

Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod staff wedi llofnodi'r polisïau a'r gweithdrefnau i gadarnhau eu bod wedi eu darllen ac yn deall eu cyfrifoldebau. Roedd gan yr holl bolisïau a gweithdrefnau ddyddiad cyhoeddi ac adolygu. Roedd hyn yn sicrhau bod polisïau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn cadarnhau bod arferion yn gyfredol.

Staff ac adnoddau

Gweithlu

Roedd tystiolaeth o raglen ymsefydlu ar gyfer aelodau newydd o staff. Gwelsom fod pob aelod o staff wedi cael mynediad at amrywiaeth o hyfforddiant, ac roedd y tystysgrifau wedi'u cadw yn ffeiliau'r staff.

Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwnedd hepatitis B pob aelod o'r staff clinigol a oedd yn gweithio yn y practis. Golygai hyn fod mesurau priodol ar waith i sicrhau bod cleifion a staff yn cael eu hamddiffyn rhag y firws hwn a gludir yn y gwaed.

Roedd arfarniadau staff yn cael eu cynnal yn flynyddol ar gyfer pob aelod o staff ac roedd y rhain yn cael eu cofnodi yn ffeiliau'r staff.

Roedd tystiolaeth o gyfarfodydd staff ffurfiol bob mis a oedd yn cael eu cofnodi. Roedd agenda yn cael ei chadw ar y system gyfrifiadurol fel y gallai staff ychwanegu eitemau pe byddent yn dymuno gwneud hynny. Roedd cyfarfodydd misol yn cael eu cynnal ar ddiwrnod gwahanol pob mis er mwyn sicrhau bod gan bob aelod o staff gyfle i'w mynychu. Yn ogystal, oherwydd maint tîm staff, roedd trafodaethau dyddiol yn cael eu cynnal ac roedd staff yn fodlon eu bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion yn ymwneud â'r practis.

Roedd pob aelod o staff, lle bo hynny'n berthnasol, wedi ei gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd tystysgrif AGIC y deintydd yn cael ei harddangos fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a gwelsom gadarnhad o yswiriant indemniad.

3. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae angen i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd.
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

4. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rydym yn rhoi rhybudd cyn cynnal arolygiad o bractis deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd cyn arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Mae'r practis yn ddarostyngedig i ddarpariaethau [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Datguddio Meddygol\) 2000](#), ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Mae manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a [gwasanaethau gofal iechyd annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Pont Steffan

Dyddiad yr arolygiad: 1 Mai 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion sicrwydd ar unwaith.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Pont Steffan

Dyddiad yr arolygiad: 1 Mai 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn.				
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn				
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad: